

## JONES, JOHN OWEN ('Ap Ffarmwr ', 1861 - 1899), newyddiadurwr

**Enw:** John Owen Jones  
**Ffugenw:** ap Ffarmwr  
**Dyddiad geni:** 1861  
**Dyddiad marw:** 1899  
**Rhiant:** Emma Jones  
**Rhiant:** Owen Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** newyddiadurwr  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Frank Price Jones

Mab i Owen ac Emma Jones, ganwyd yn Ty'n y Morfa, Trefdraeth, Môn, ddydd Calan 1861. Wedi marw'i dad, ac i'w fam ail-briodi, symudodd y teulu i fyw i Gae'r Llechau, Dwyrân, Môn (tua 1865). Cafodd ei addysg yn Ysgol y Bwrdd, Dwyrân. Yn 14 oed, fe'i rhwymwyd yn brentis gyda Lewis Lewis, draper, y 'Nelson', Caernarfon. Yn y cyfnod hwn, darlennai yn helaeth waith awduron fel Darwin, Huxley, Ruskin a Carlyle, ac aeth i ysgol Mr. Kirk yn y dref. Oddi yno, aeth i goleg Aberystwyth am dair blynedd, ac am flwyddyn wedyn i goleg Owens, Manceinion. Bu wedyn am gyfnod yn 'Ohebydd Llundain' i'r *Genedl Gymreig* a'r *North Wales Observer and Express*.

Dychwelodd o Lundain i gadw ysgol yn Nwyrân a pharhau i ysgrifennu i'r wasg : ceir erthyglau ganddo ar amryw bynciau yn y *North Wales Observer and Express*, y *Werin*, y *Genedl*, a'r *Cymro* yn ystod 1883-95, ac yn y *Geninen* 1891, 1892 a 1897.

Yn 1891 penodwyd ef yn is-olygydd y papurau a gyhoeddwyd gan y Wasg Genedlaethol Gymreig yng Nghaernarfon. Symudodd i Ferthyr Tudful yn 1895 i olygu'r *Merthyr Times*, ac yn 1897 aeth i Nottingham yn ysgrifennydd erthyglau arweiniol y *Nottingham Daily Express* (gweler o dan **Edwards, David**). Yn y cyfnod hwn, ysgrifennodd *Cofiant Gladstone* (Caernarfon 1898). Bu farw yn Nottingham 2 Mawrth 1899 a'i gladdu ym mynwent y Methodistiaid, Dwyrân, 7 Mawrth. Codwyd cofeb ar ei fedd yn 1902 gyda chymorth rhoddion gweision ffermydd Môn.

Fel yr awgryma ei ffugenw, cymerai ddiddordeb mawr mewn materion amaethyddol, ac fe'i cofir yn arbennig am ei gyfraniad tuag at wella amodau gwaith gweision ffermydd Môn. Fel newyddiadurwr, ysgrifennai ar amryw bynciau, gan gynnwys cyfres o erthyglau effeithiol iawn ar gyflwr yr eglwys sefydledig yng Nghymru wledig. Ond wedi dychwelyd o Lundain i Ddwyran, ymddiddorodd yn arbennig yn nghyflwr y gweision amaethyddol, a chyhoeddodd gyfres o erthyglau ar y testun hwn yn y *North Wales Observer & Express*. Cyhoeddodd fersiwn Cymraeg yn y *Werin*, papur dimai a ddatblygodd yn brif ladmerydd achos y gweision hyn. Ar ôl cynnal nifer o gyfarfodydd i geisio gostwng oriau gwaith ar y tir, cafwyd cynhadledd yn Llangefni, ddydd Llun y Pasg, 1890, a llwyddwyd i gael lleihâd o ddwy awr y dydd. Cynhaliwyd cynhadledd debyg yn Llangefni 2 Mai 1891, a cheisiwyd, yn aflwyddiannus, ffurfio undeb gweithwyr amaethyddol. Er hyn, mynnai'r gweithwyr ddatgan eu gwerthfawrogiad o waith 'Ap Ffarmwr', ac mewn cyfarfod mawr arall yn Llangefni, 11 Mai 1893, anrhegwyd ef â wats aur. Yn y cyfarfod hwn pasiwyd i ffurfio undeb amaethyddol i Fôn, a gofyn i 'Ap Ffarmwr' gymryd yr arweiniad yn y gwaith. Ni ddaeth dim o hyn oherwydd gwrthwynebiad y ffermwyr, amharodwyd y gweision i dalu eu cyfraniadau, ac efallai oherwydd i Ap Ffarmwr symud i Ferthyr cyn cyflawni'r gorchwyl. Ceir datganiad clir o'i syniadau ef am y rhan y dylai'r gweithwyr ei gymryd mewn gwleidyddiaeth yn *Y Cymro* 31 Gorffennaf 1890. (Gweler ymhellach o dan **David Edwards**.)

### Awdur

**Frank Price Jones**, (1920 - 1975)

### Ffynonellau

R. Hughes, *Enwogion MÃ´n, 1850â€“1912* (Dolgellau 1913)

Traethawd O. Llew Owain, *Hanes a Chyfansoddiadau Arbryn Eisteddfod [MÃ´n] Llanerchymedd, 1911* (Llangefni 1912), 98-132

Y *Genedl Gymreig*, 16 Mai 1893, 7 Mawrth 1899

ar y mudiad i ffurfio Undeb Amaethyddol gweler D. Lleufer Thomas, *The Royal Commission on Labour* Vol. II, 125-43 (C 6894-xiv, 1893)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6251454

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

**LGC  
NLW**

**LLYFRGEL  
THE NATION**



Yn ddiolch i:  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government